


**EISTEDDFOD YR URDD SIR GAERFYRDDIN 2023**  
**PERFFORMIAD THEATRIG O SGRIPT Blwyddyn 7, 8, 9**



**Addasiad allan o 'YR HAF GORAU ERIOED' gan Gwenno Hughes**

***Cefndir: Yn yr 1970au, roedd ffatri gwneud LSD mwyaf y byd wedi'i lleoli yn ardal Tregaron. Lawnsiodd yr heddlu gyrch enwog Operation Julie i ddal y dihirod oedd yn gwneud a gwerthu'r cyffuriau. Dyma gefndir 'Yr Haf Gorau Erioed.'***

*Gellir newid rhyw ac enwau'r cymeriadau a'r dafodiaith. Pwysleisir mai props syml sydd eu hangen ar gyfer yr ymgom.*

**CYMERIADAU:**

**Meg Daniels**

**Lefi Daniels**

**Sbanar**

**Tomi Tecila (Tafarnwr, Tadcu Meg a Lefi Daniels)**

**LLEOLIAD: TAFARN CATI, TREGARON**

MAE MEG, LEFI, A SBANAR YN NHAFARN CATI A KEIRA A TAL (NA WELIR). MAE TOMI TECILA YN HWYLIO I MEWN O'R GEGIN GYDA PHENTWR O FAGUETTES, JWG O DDŴR A GWYDRAU AR HAMBWRDD.

**TOMI TECILA:** Shwmai bois? Barod am y baguettes ham a phicl gorau yn Nhregaron?

**MEG:** (CYFARTH) Oi, beth oedd y Keira a'r Tal yna moyn gyda chi gynne, Tadcu?

**TOMI TECILA:** (COEGLYD) Diod, yn rhyfedd iawn. Gan taw tafarn yw hon.  
(YSGAFN) A beth maen nhw wedi'i wneud i chi? Wy'n synhwyro  
tensiwn...

**MEG:** (NODIO) Wedi'n cico ni mas o'n 'den'...

**LEFI:** (NODIO)A strwa'n Haf ni – cyn iddo fe hyd yn oed ddechrau!

**TOMI TECILA:** Ie, wel, ddylech chi ddim conan! Achos nage'ch bwthyn chi hi yw  
Gelli Aur ife.

MAE TOMI TECILA'N RHOI'R HAMBWRDD I LAWR AC MAE'R CRIW YN ESTYN AT Y  
BAGUETTES. MAE SBANAR YN SGLAFFIO YN FARUS DRWY'R CANLYNOL.

**MEG:** So? Sneb wedi byw yna ers blynydde!

**LEFI:** Na! Nes iddyn *nhw* laniio ddoe a rhoi cic yn ein pen olau ni!  
(YSGWYD EI BEN)*Cheek*.

**SBANAR:** Maen nhw'n mynd bytu'r lle'n holi pawb am y boi oedd yn byw  
yna'n y 70au, Tomi.

**TOMI TECILA:** (SYNDOD) O, holon nhw fi bytu fe.

**LEFI:** Do? Oeddech chi'n 'nabod e, Tadcu?

**TOMI TECILA:** Pwy oedd ddim yn 'nabod Darren Drygs.

**SBANAR:** Darren Drygs?

**TOMI TECILA:** Hipi bach - od.

**MEG:** Oedd e'n cymryd drygs?

**TOMI TECILA:** Dîlio drygs. Pan ro'n i'n ifanc, roedd un o ffatrioedd gwneud drygs  
mwyar byd yn yr ardal yma.

MAE SBANAR YN TAGU AR EI FAGUETTE, MEWN SIOC. MAE LLYGAID MEG A LEFI YN LLEDU MEWN SYNDOD.

**LEFI:** Siryis?

**TOMI TECILA:** Siriys.

**MEG:** Ond ni mewn tref fach yn ganol unlle!

**TOMI TECILA:** (ADLEISION YSGAFN) So? Haws cuddio ffatri drygs mewn tref fach na mewn dinas fawr. Ac roedd yr LSD ro'n nhw'n wneud fan hyn yn cael ei anfon i bedwar ban byd.

**SBANAR:** (DOD ATO'I HUN)No wê!

**TOMI TECILA:** Gwglâ. Gafodd y gang ei ddala'n ystod Operation Julie.

**MEG:** Pwy yw Julie?

**TOMI TECILA:** Un o'r plismyn oedd yn cwrso'r gang. Buodd yr heddlu yn eu gwyllo nhw am fishodd cyn eu haresto a chau'r ffatri. Ond oedd y gang wedi gwneud miliyne erbyn 'nny.

MAE SBANAR YN TAGU EILWAITH AR EI FAGUETTE – YN GOMIG. MAE TOMI TECILA YN ESTYN CWPAN IDDO.

**TOMI TECILA:** (GWENU)Dŵr?

MAE SBANAR YN CYMRYD LLYMAID I DDOD DROS Y SIOC.

**TOMI TECILA:** Roedd Tregaron yn enwog drwy'r byd.

**MEG:** Ro'n i'n meddwl taw'r peth difyrraf ddigwyddodd yma oedd bod eliffant wedi'i gladdu tu ôl i'r Talbot!

**TOMI TECILA:** (GWENU)Wel, dyna ble ti'n rong! Gafodd yr heddlu afael ar y rhan fwya o'r cyffuriau cofiwch - er chawson nhw ddim gafel ar yr holl arian wnaeth y gang.

**LEFI:** Ble ma hwnnw te?

**TOMI TECILA:** Wel, roedd si bod e wedi cael ei gwato mewn cesus a'i gladdu o gwmpas yr ardal.

**SBANAR:** (DOD ATO'I HUN) Beth? Ble?!

**TOMI TECILA:** Sneb yn gwybod oes e – (ROWLIO'I LYGAID) yn amlwg.

**MEG:** Ym...am faint o arian ni'n sôn?

**TOMI TECILA:** (CODI A GOSTWNG EI YSGWYDDAU) Milodd. Ar filoedd.

MAE SBANAR YN TAGU'N GOMIG AM Y DRYDEDD TRO AC MAE TOMI TECILA YN ESTYN Y GWPAN DDŴR IDDO HEB DORRI GAIR. MAE SBANAR YN EI GLECIO AR EI BEN, ER MWYN DOD DROS Y SIOC.

**MEG:** Ddaeth y gang yn ôl i chwilio am yr arian wedi iddyn nhw ddod mas o'r carchar?

**TOMI TECILA:** Do, yn ôl y sôn. Ond wnaeth Darren Drygs farw tra roedd e mewn yna. Felly mae nhw'n dweud bod ei sîar e o'r arian dala wedi'i gladdu rhywle yn yr ardal 'ma.

**LEFI:** Chi'n dweud y gwir?

**TOMI TECILA:** Wy jyst yn dweud beth mae pobl yn ddweud. Reit, so'r llestri'n mynd i olchi eu hunain...Os na chi moyn rhoi help llaw i fi'n y gegin?

**MEG/LEFI/SBANAR:** (FEL CÔR)Eh...na...

**TOMI TECILA:** (COEGLYD) 'Na syrpreis.

MAE TOMI TECILA YN DIFLANNU NÔL I'R GEGIN DAN WENU. MAE LEFI YN TROI AT EI GYFEILLION.

**LEFI:** O.M.B! Chi'n meddwl beth wy'n feddwl?

**MEG:** Dibynnu beth ti'n feddwl.

**LEFI:** Mae Keira a Tal wedi clywed y stori am Darren Drygs a wedi dod yma i chwilo am ei arian e, dofe!

**MEG:** Cytuno! Fydden nhw ddim wedi'n cico ni mas o Gelli Aur fel arall!

**LEFI:** Na! Dyna pam ro'n nhw'n chwilio bob twll a chornel o'r ardd gyda *metel detector*..

**MEG:** Gwmws! Beth ti'n feddwl, Sban?

**SBANAR:** (DARFOD EI FAGUETTE) Bod eisiau mwy o bicl ar y baguette yma ...

**MEG:** Eh? Pwy sôn am bicl, *nawr*?!

**SBANAR:** Dim ond dweud.

**MEG:** Wel, paid dweud pethe twp! Shifftwch hi bois! Ni'n mynd nôl i Gelli Aur...

MAE MEG A LEFI YN CARLAMU ODDI AR Y LLWYFAN, TRA BOD SBANAR YN EU DILYN LING-DI-LONG.

**Y DIWEDD**